**Cyfarfod Llawn 2001 – 2002 (48)**

**Dydd Iau, 7fed Chwefror 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru ar Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau Cyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 25) ar Grant Arbennig ar gyfer Cynnal a Chadw Ffyrdd Lleol**
*NDM951* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan A88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8 yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 25) (Cymru) Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2002.

Cliciwch yma i weld Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 25) (Cymru) Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2001 - Ar gael yn Saesneg yn unig.

**Eitem 4**
**Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Cymru) 2002 ar y Grant Diogelwch Ffyrdd**
*NDM950* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan A88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8 yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Cymru) Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2002.

Cliciwch yma i weld Adroddiad Grant Arbennig (Cymru) Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2002.

**Eitem 5**
**Dirprwyo'r pwerau yng Ngorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2001**
*NDM949* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol (ac eithrio'r rheini na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo) a gynhwysir yn neu o dan reoliadau a wnaed gan:

a) y Cynulliad Cenedlaethol (boed wedi'u gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unig neu ar y cyd ag un o Weinidogion y DU, un o Adrannau Llywodraeth y DU neu Weithrediaeth yr Alban neu Ogledd Iwerddon) o dan adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewrop 1972 yn unol â'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad gan Orchymyn Cymunedau Ewrop (Dynodi) (Rhif 3) 2001 (OS 2001/3495), ("y Gorchymyn Dynodi"); neu

(b) un o Weinidogion y DU o dan ei bwerau/phwerau cyfatebol, o dan yr adran 2(2) y cyfeirir ati uchod, mewn perthynas ag unrhyw un o'r mesurau y rhoddwyd eu swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Gorchymyn Dynodi.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Ceir copïau o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Cymunedau Ewrop 1972 yn Llyfrgell y Cynulliad.

Gellir gweld Gorchymyn Cymunedau Ewrop (Dynodi) (Rhif 3) 2001 (OS 2001/3495) drwy glicio ar y cyswllt isod:

http://www.legislation.hmso.gov.uk/si/si2001/20013495.htm

**Eitem 6**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
*NDM948* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn nodi, gyda siom, y cynlluniau ar gyfer Cymru yng Nghynllun Strategol yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol.

2. Yn nodi, gyda phryder, effaith y cynllun hwn ar allu Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi trafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru.

3. Yn credu bod yn rhaid unioni'r sefyllfa ar unwaith ac felly'n cyfarwyddo Llywodraeth Cymru i:

    (a) Negodi â Llywodraeth y DU, fel blaenoriaeth, y pwer i benodi cynrychiolwyr o Gymru i fod ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol gyda phwerau i gyfarwyddo'r

Awdurdod Rheilffyrdd Strategol;
(b) Negodi â Llywodraeth y DU, a hynny ar fyrder, ddeddfwriaeth sylfaenol i alluogi'r Llywodraeth i ddatblygu dulliau priodol ar gyfer cydlynu trafnidiaeth gyhoeddus yn genedlaethol yng Nghymru, a datblygu cysylltiadau ar draws ffiniau yn effeithiol;
(c) Ymchwilio i gyfran y gwariant cyfredol ar y rheilffyrdd yng Nghymru er mwyn gweld beth yw union fanteision y lefelau ariannu i wasanaethau yng Nghymru a lefelau cymharol y buddsoddi yn rhanbarthau eraill y DU;
(d) Negodi â'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, yn y tymor byr, gyfran o gyllid sy'n adlewyrchiad gwell o'r angen am fuddsoddi yn isadeiledd rheilffyrdd Cymru;
(e) Negodi â Llywodraeth y DU cyn gynted â phosibl i weld a oes modd datganoli cyllideb rheilffyrdd ar gyfer Cymru sy'n adlewyrchu'r hyn a ddeilliodd o'r ymchwil a'r trafodaethau y cyfeirwyd atynt ym mhwyntiau (d) ac (e) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
(f) Argymell wrth Lywodraeth y DU bod angen dod â'r ansicrwydd parhaus parthed dyfodol Railtrack a'r camau i ddod â Railtrack nôl dan reolaeth gyhoeddus i ben.

*Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:*

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 3 yn gyfangwbl a rhoi yn ei le:
3. Yn gresynu at benderfyniad y Llywodraeth i danseilio Railtrack a'i ailwladoli.

**Eitem 7**
**Dadl Fer:**
**NDM947 Brian Hancock (Islwyn): Ein Camlesi – Agor y drws i'r Dyfodol**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

*********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Mawrth, 12fed Chwefror 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**